**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

28 Tachwedd 2022

Cymorth ar gyfer Rubicon Dance

Annwyl Dawn

Rydym yn ysgrifennu atoch yn dilyn adroddiadau diweddar o drafferthion ariannol yng nghwmni Rubicon Dance.

Fel y gwyddoch, mae Rubicon Dance wedi wynebu rhai anawsterau ariannol yn ddiweddar. Deallwn fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu peth cymorth a byddem yn croesawu eglurder ynghylch y math o gymorth sy'n cael ei gynnig a faint o gymorth ariannol sydd wedi'i ddarparu.

At hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod Rubicon Dance yn gallu adfer i sefyllfa lle y gall barhau i gyflawni ei waith fel cyn yr argyfwng presennol.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.